

Bord Gron What Works: Y gwledydd datganoledig a chydweithredu

Rhagfyr 2019

Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r prif bwyntiau a gododd mewn cyfarfod bord gron a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2019 i nodi diwedd prosiect Cronfa Strategol yr ESRC dan arweiniad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ynghyd â Phrifysgol Queen's Belfast, What Works yr Alban a'r Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol.

Nod y prosiect oedd meddwl sut i:

- gynyddu'r cydweithrediad rhwng y rhwydwaith What Works, a
- gwella cyrhaeddiad y rhwydwaith What Works yn y gwledydd datganoledig.

Cynhaliwyd cyfres o 'uwch-gyfarfodydd What Works' gyda gwneuthurwyr ac ymarferwyr polisi o'r tair gwlad ddatganoledig ynghyd â thystiolaeth o'r Canolfannau What Works ar ystod o faterion polisi pwysig, o iechyd meddwl pobl ifanc i berfformiad yr economi leol.

Trefnwyd y cyfarfod bord gron, a gadeiriwyd gan Jennifer Rubin ac Alison Park, gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â'r Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol. Daeth â Chynghorydd Cenedlaethol What Works, yr ESRC, Cyfarwyddwyr y Canolfannau What Works a gwahanol randdeiliaid eraill at ei gilydd i rannu gwersi dysgu'r prosiect, trafod sut i ehangu cyrhaeddiad y rhwydwaith What Works yn y gwledydd datganoledig a chefnogi prosiectau cydweithredol pellach rhwng y Canolfannau What Works.

Cydweithredu rhwng y Canolfannau What Works

Nodwyd fod ystod o brosiectau cydweithredol eisoes ar y gweill rhwng y Canolfannau What Works, gan amrywio o ddulliau 'ysgafn' seiliedig ar 'wneud pethau gyda'n gilydd', i gysoni'r iaith o gwmpas tystiolaeth a chyflwyno dulliau 'mwy treiddiol' sy'n golygu newid yr hyn a wnewch o ganlyniad i weithio ag eraill. Rhoddir enghreifftiau o'r gwahanol ddulliau hyn o dan 'Sut?' isod. Cytunwyd fod gwahanol fathau o gydweithredu'n werth chweil, ond nodwyd hefyd bod angen cael pwrpas clir ynghyd â digon o adnoddau.

Pam cydweithredu?

Y prif ddulliau o gydweithredu rhwng Canolfannau What Works a drafodwyd oedd: cyfuno adnoddau, mwyhau'r dysgu, a gwella cyrhaeddiad.

Gallai **cyfuno adnoddau** gynnwys ymgynghori â'r Canolfannau presennol i benderfynu sut i ariannu Canolfannau newydd ac yna, ar ôl sefydlu'r Canolfannau newydd, rhannu data - e.e. un Ganolfan i ail-ddadansoddi data Canolfan arall gyda ffocws ar wahanol ganlyniadau - a rhedeg treialon ar y cyd i osgoi 'llygru' (er enghraifft rhwng gwahanol brosiectau a hyrwyddir gan y Canolfannau lle mae'r ffocws ar bobl ifanc). Gall treialon ar y cyd ddangos sut y mae ymyriadau'n cyflawni canlyniadau lluosog, neu'n cael effaith ryngweithiol negyddol (e.e. gwella cyflawniad addysgol ond lleihau lles).

Mae cydweithredu hefyd yn cynnig ffordd o **fwyhau'r dysgu**, o Ganolfannau'n rhannu profiadau a chyngor, yn enwedig ar ddechrau buddsoddiad newydd a gyda Chanolfannau



newydd, i ddefnyddio rhwydweithiau a sgiliau ei gilydd i gynhyrchu gwaith. Mae gan nifer o'r Canolfannau yn y gwledydd datganoledig, neu ddinasoedd / rhannau penodol o Loegr, rhwydweithiau a dealltwriaeth o flaenoriaethau polisi, a byddai'n fanteisiol eu rhannu.

Yn olaf, gall cydweithredu wella cyrhaeddiad y Canolfannau fel bo'n haws i gynulleidfaoedd gael gafael ar dystiolaeth gan wahanol Ganolfannau mewn ffyrdd sy'n codi uwchlaw 'seilos' proffesiynol a chysylltiadau dwyochrog Canolfannau unigol ag adrannau'r llywodraeth.

Ymgysylltu â'r gwledydd datganoledig a dulliau 'lle'

Mae nifer o'r Canolfannau What Works yn cael eu hariannu i weithio yn Lloegr yn unig, ond mae gan lawer ohonynt bartneriaethau ag ardaloedd penodol ac felly'n rhannu'r un diddordeb mewn dysgu am ddulliau seiliedig ar le o ddangos symudedd.

Mae yna hefyd fanteision posib i'r Canolfannau o ymgysylltu â gwahanol rannau o'r DU. Yn enwedig, gallai roi cyfle i weld sut y gallai tystiolaeth weithio mewn gwahanol gyd-destunau ac ecsbloetio unrhyw wahaniaeth i gynnal treialon a chyflawni dadansoddi cymharol. Ac fel y nodwn uchod, gallai'r Canolfannau What Works hefyd rannu gwybodaeth, cysylltiadau a rhwydweithiau ei gilydd.

Mae gan **wahanol wledydd ac ardaloedd y DU heriau economaidd a chymdeithasol tebyg** sy'n golygu y gallai'r dystiolaeth a gesglir gan Ganolfannau What Works mewn un rhan o'r DU fod yn ddefnyddiol i ardaloedd eraill. Mae'r diddordeb brwd yn uwch-gyfarfodydd What Works – a ddenodd dros 300 o bobl i'w mynychu, a llawer ohonynt heb wybod dim am Ganolfannau What Works cyn hynny – yn tystio i hyn ac yn dangos bod galw cryf yn y gwledydd datganoledig am dystiolaeth gan y rhwydwaith What Works.

Syniadau ar gyfer cydweithredu ac ymgysylltu yn y dyfodol

Ar sail ein trafodaethau, awgrymwn felly rai camau nesaf a allai helpu i gynyddu cydweithrediad ac ymgysylltu â'r gwledydd datganoledig.

Gallai'r Canolfannau What Works **gydweithredu ymhellach** drwy:

- greu pensaernïaeth ddata gyffredin.
- rhannu swyddfeydd, fel yn y Chwarter Tystiolaeth, sy'n cydnabod mai pur anaml y mae cydweithredu'n digwydd yn ddamweiniol, ac y gellir ei feithrin a'i gynyddu drwy rannu gofod.
- adnabod ffyrdd o weithio'n gydgysylltiedig ar sail canlyniadau cyffredin, cwrs bywyd neu ddulliau seiliedig ar le (wele isod).
- mapio amcanion, gweithgareddau a chynulleidfaoedd y Canolfannau What Works ac adnabod unrhyw fylchau yn y tirlun tystiolaeth a allai gael eu llenwi drwy greu Canolfannau newydd ac ehangu cylch gwaith y Canolfannau presennol, deall gwerth y rhwydwaith presennol yn well a chanfod cyfleoedd newydd i gydweithredu.

Gellid annog **ymgysylltu'n well â'r gwledydd datganoledig ac ardaloedd** eraill drwy:

- drefnu bod gan y Canolfannau What Works swyddi craidd gyda sefydliadau partner credadwy.



Wales Centre for Public Policy Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

- meithrin y berthynas rhwng y Canolfannau What Works a gwneuthurwyr ac ymarferwyr polisi mewn gwledydd datganoledig ac ardaloedd ar draws y DU, gyda ffocws ar sut y gall gwaith y Canolfannau helpu rhai llefydd.
- bod y Canolfannau What Works yn ymgysylltu mwy â'r rhwydweithiau presennol mewn gwledydd datganoledig ac ardaloedd eraill.
- gwneud mwy i gyfeirio tystiolaeth What Works ymlaen i lefydd eraill a chreu cysylltiadau rhwng Canolfannau What Works eraill a gwneuthurwyr ac ymarferwyr polisi mewn gwledydd datganoledig ac ardaloedd eraill. Gallai hyn hefyd gynnwys canfod sut y gallai'r Canolfannau What Works rannu cysylltiadau mewn gwahanol ardaloedd.
- creu hyb digidol lle gallai gwybodaeth am yr holl Ganolfannau What Works gael ei chyrchu ar wefan 'niwtral' ddibynadwy a fyddai ar gael i wneuthurwyr ac ymarferwyr polisi ym mhedair gwlad y DU, ac wedi'i hyrwyddo'n weithredol gan y rhwydwaith.

Cyfranogwyr

Jamila Boughelaf	What Works - Lles
Jonathan Breckon	Y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol
Dan Bristow	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Jonathan Carter	ESRC
Jo Casebourne	EIF
Anna Dixon	Y Ganolfan Heneiddio'n Well
John Elvidge	Llywodraeth yr Alban
Irene Fernow	ESRC
Stephen Fraser	Y Sefydliad Gwaddol Addysgol
Jen Gold	Swyddfa'r Cabinet
David Halpern	Swyddfa'r Cabinet
Anna Hopkins	Y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol
Audrey MacDougall	Llywodraeth yr Alban
Steve Martin	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Paul Matthews	Cyngor Sir Fynwy
Lynne Miles	Canolfan What Works ar gyfer Twf Economaidd Lleol
Sarah Miller	Campbell UK & Ireland ym Mhrifysgol Queen's Belfast
Huw Morris	Llywodraeth Cymru
Julia Morris	Canolfan What Works ar gyfer Lleihau Troseddu
Paul Murray	Campbell UK & Ireland ym Mhrifysgol Queen's Belfast
Alison Park (Cadeirydd)	ESRC
Jennifer Rubin (Cadeirydd)	ESRC
Michael Sanders	What Works ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant
Emma Taylor-Collins	Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Ligia Teixeira	Y Ganolfan Effaith Digartrefedd
Nick Watson	What Works yr Alban